Cyfres Llanbedr | RHAGFYR 1932. | Cyf. 32. Rhif 12.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NADOLIG.
CRONFA'R BWRDD PRESBYTERAIDD.
ODDIAR Y TWR.
PENNOD O ATGOFION.
COEDWIG YN STORM Y GAEAF.
URDD Y BENYWOD.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. RHAGFYR, 1932. Cyf. XXXII. Rhif 12.

Nadolig.

MAE yna rai adegau o'r flwyddyn yr hiraethwn am eu gweled. Pan yw y dyddiau yn ddu ac oer yn y gaeaf hiraethwn am weled y gwanwyn. Adeg yr hiraetha pawb ei gweled ydyw y Nadolig. Hawdd deall y rheswm am ein hiraeth yn y gaeaf am weled y gwanwyn, ond pam yr hiraethwn am y Nadolig? Onid du y dyddiau ac oer yr hin tua Nadolig? Onid tymor yr eira a'r awel finiog ydyw? Ie, ond er hynny, hiraetha pawb am weled y Nadolig. Er i eira orchuddio'r ddaear, ac i'r hin fod yn erwin, nid ymddengys bod hynny yn llwfrhau neb. Mae yna ysbryd newydd yn meddiannu pawb ddyddiau Nadolig, a hwnnw yn ysbryd cynnes. Nid yw yr oerni o'r tuallan yn effeithio dim ar ddynion oblegid fod yna ddigon o gynhesrwydd o'r tufewn.

Onid ydym yn gynnes o'r tufewn ddyddiau'r Nadolig? Meddyliau cynnes am ein gilydd a theimladau cynnes tuag at bawb. Onid oes yna fwy o ewyllys da adeg y Nadolig nag un adeg arall o'r flwyddyn? Onid ydym yn teimlo yn fwy brawdol a charedig tuag at ein gilydd? Credwn nad oes neb, gan nad pa mor hunanol bynnag y bo, nad yw yn teimlo yn gariadus tuag at ei gyd-ddynion y pryd hwn. Awyrgylch cariad a dymuniadau da a charedigrwydd sydd o'n cwmpas. Ac onid ydyw yr awyrgylch hon ar adeg y Nadolig yn un hyfryd iawn, ac yn peri i ni deimlo mwynhad mawr?

Os felly, paham nad yw yn Nadolig drwy'r flwyddyn? Nid dod mae yr awyrgylch hon o wlad arall. Nid cael ei hachosi gan y nefoedd mae megys ag y mae awyr gynnes y gwanwyn yn cael ei hachosi gan yr heulwen. Ni sydd yn gwneud yr awyrgylch hon. Pam na wnawn ni i'r awyrgylch hon barhau drwy'r flwyddyn? Mynega y bardd ei ddymuniad mewn cân o berthynas i'r haf—"O na byddai'n haf o hyd." Mae tymhorau'r flwyddyn tuhwnt

i allu dyn eu llywodraethu, ond y mae yn ei allu i lywodraethu yr awyrgylch ydym ni yn son am dani, ac i barhau hon drwy'r flwyddyn oblegyd ef sydd yn creu yr awyrgylch hon.

Pam na chawn ni Nadolig drwy y flwyddyn ? Os yw dynion yn gallu dod allan o gragen eu hunanoldeb a'u calon-galedwch unwaith yn y flwyddyn paham na ddeuant yn amlach, a phaham na ddeuant allan o honi yn gyfangwbl ? Os yw cranks a faddists yn gallu newid eu hunain am ddau neu dri diwrnod, a dod yn ddynion rhesymol, paham na wnant hynny am dri chant a thri ugain a phump o ddiwrnodau ? Os yw cybyddion yn gallu bod yn haelionus a rhwyddgalon am ychydig amser, a oes yna ddim ryw ddylanwad a all wneud i'w haelioni barhau yn hwy ?

Credwn fod hwn yn gwestiwn sydd, nid yn unig yn werth ei ofyn, eithr hefyd yn werth rhoddi sylw iddo. Mae yna wasgfa fawr heddyw ym mhob gwlad, a diwydiannau pob gwlad yn isel iawn. Efallai fod llawer o bethau yn cyfrif am hynny, ond un rheswm am hynny, yn ddiau, ydyw y drwgdybiaeth sydd yn bod rhwng dosbarth a dosbarth, a'r diffyg cydweithrediad o'r herwydd Mae yr anghariad y sydd yn bod rhwng dosbarth a dosbarth yn beth mor amlwg fel na ellir peidio ei weled ; ac y mae swyddogion a berthyn i'r gwahanol ddosbarthiadau yn ceisio meithrin yr ysbryd hwn. Ac y mae yn rhaid i'r hunanoldeb sydd wedi treiddio i fewn i bob dosbarth gael ei atal os ydym am beidio myned i ddinistr cyffredinol.

Paham nad allwn fod yn ddigon o ddynion i benderfynu, mor bell ag y mae a fynno pob un o honom yn bersonol, na fydd i ni gyfyngu ysbryd y Nadolig y tufewn i ychydig ddyddiau, ond y bydd i ni barhau yr ysbryd hwnnw drwy'r flwyddyn ? Ni chredwn fod dim yn afresymol ac amhosibl yn yr awgrym. Rhaid i'r mwyaf ymarferol o ddynion gydnabod y gellid gydag ewyllys da a dyfalbarhad wneud llawer tuagat gyflawni yr awgrym hwn.

Meddyliwn am berthynas gwahanol wledydd y byd a'i gilydd. Dywedir fod mwy o ysbryd milwrol, a mwy o baratoi ar gyfer rhyfel heddyw mewn rhai o wledydd y byd nag a fu erioed. Yn ystod y Rhyfel Mawr, pan yr oedd teimladau chwerw yn eu hanterth, peidiai'r chwerwder hwn adeg Nadolig, a milwyr perthynol i'r gwledydd oedd yn elyniaethus i'w gilydd yn cyfarch ei gilydd yn frawdol, ac yn dymuno Nadolig llawen i'w gilydd. Yr oedd yna adegau o heddwch ar amser Nadolig cydrhwng y byddinoedd a oedd am waed ei gilydd bryd arall. Oni charem weled yr adegau hynny o heddwch yn cael eu hestyn, ac yn cael eu hestyn ddigon nes dileu yn hollol bob ymrafael ac anghydfod rhwng cenhedloedd a'i gilydd ?

Hwyrach y meddylia rhywrai ein bod yn son am yr hyn sydd yn amhosibl ; fod heddwch cyffredinol a pharhaus yn beth rhy uchel i obeithio am dano. Ond os yw cenhedloedd ar wahanol

adegau, fel ar adeg Nadolig, neu ar adegau neillduol eraill, yn gallu mynwesu teimladau cynnes tuag at ei gilydd, ac yn gallu dymuno yn dda i'w gilydd, ni welwn un rheswm dros beidio credu y gallent deimlo a dymuno felly tuag at ei gilydd bob amser pe baent yn ymdrechu gwneud hynny.

Meddyliwn eto am Etholiad Cyffredinol; y fath gyffro sydd ar adeg felly, a'r fath deimladau chwerw sydd yn cael eu cynhyrchu rhwng pleidiau a'i gilydd? Credwn, er hynny, y byddai cefnogwyr mwyaf pybyr y pleidiau gwrthwynebol yn barod i gyhoeddi heddwch ar adeg Nadolig, ac i gyfeillachu a'i gilydd mewn modd brawdol. Ystyriem unrhyw ddyn yn engraifft hynod iawn o ddynoliaeth pe byddai iddo anghysuro ei hun, ac anghysuro eraill hefyd, drwy ddwyn i fewn ddadleuon gwleidyddol ar y Nadolig.

Ac os y gallwn fod yn amyneddgar a goddef syniadau a golygiadau gwahanol i'r eiddom ni am dri diwrnod yn y flwyddyn, paham nad allwn wneud hynny drwy'r flwyddyn? Oni allwn fel pobl synhwyrol gytuno i anghytuno, a chydnabod nad yw gwirionedd yn feddiant cyflawn un blaid, ac mai y ffordd oreu i gynhyddu ydyw drwy i bob un fod yn ffyddlon i'r hyn a gred, a derbyn goleuni gan nad o ba le bynnag y daw.

Gellir cymhwyso hyn at grefydd a materion cymdeithasol, a phob peth arall o'n cwmpas ag sydd yn dal perthynas â lles dyn.

Wele ni unwaith eto yn ymyl Nadolig. Os y bydd i ni fod yn yr ysbryd a nodwn, bydd i hynny ychwanegu yn fawr at ein dedwyddwch a'n defnyddioldeb yn ystod y tymor.

Gadawn i londer ac ewyllys da y tymor ddod i mewn i'n bywyd yn eu llawnder. Mor bell ag y gallom, ymwrthodwn â phryderon, ac yfwn mor helaeth ag y sydd yn bosibl i ni o ysbryd llawen yr ŵyl. Ac yn fwy na hynny, ceisiwn wneud i'r Nadolig barhau drwy y flwyddyn hon a thrwy bob blwyddyn arall o'n bywyd.

L.W.

Pennod o Atgofion.

(*Anerchiad i Lywydd ac Urdd y Benywod Rhydygwin, Tach.* 8, 1932).

GWNAF ymddiheurad am dorri am dro ar draws eich gweithrediadau. Daeth i'm meddwl am grwt bach rywbryd yn rhywle lle 'roedd dynion yn gwthio llong i'r môr. "Go out from our way, boy" ebe un o'r dynion. "O let me help" meddai'r crwt bach, "*I can push a pound*". Wel mi gefais innau yr hyfrydwch o gael pwsho pound fel arwydd bychan iawn o'm dymuniad i'r Urdd a'r Eglwys hon fod yn llwyddiannus.

Â fy nghof yn ôl am ragor na 60 mlynedd at De-parti yma, ac yn fyw iawn y cofiaf am yr hen wynebau annwyl, yn arbennig am un a oedd 18 mlwydd oed bryd hynny ond y sydd yn ei bedd ers ychydig dros flwyddyn. Ychydig iawn o'r dynion, y gwragedd a'r merched ieuainc hynny y sydd yn fyw heddiw.

Daw barddoniaeth Ceiriog Hughes i'm meddwl :—

" Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt ;
Clywir eto gyda'r wawr
Gân bugeiliaid megys gynt ;
Eto tyf y llygaid dydd,
O gylch traed y graig a'r bryn,
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn."

I mi y mae rhyw dinc o hiraeth ar ôl yr hên fugeiliaid yn gymysg a gobaith a llawenydd fod bugeiliaid newydd yma. Fe saif Trichrug a'r bryniau amgylchynnol yma pan fydd y bugeiliaid y sydd yn awr wedi mynd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr. Ym mhen 60 mlynedd eto bydd yn dda gennych edrych yn ôl ar eich gwaith a'r treuliau yr aethoch iddynt. Ond fe fydd y mwynhad a feddiennwch yr amser hwnnw yn gyfryw na fedr arian mo'i brynu.

Meddylier am ryw hên deithiwr blin mewn gwlad ddieithr. Fe wêl ei haul yn gwelwi, yr haul ar fynd tros y terfyngylch, cysgodion y nos yn ei amgylchynnu, try ei lygaid i fyny a gwel y ser yn ei gysuro. Felly yr ydych chwithau heno, fel y ser, a bugeiliaid i gadw ar glawr fywyd moesol ac ysbrydol ein heglwysi a'n capeli.

Nid oes gennyf fi ond pennod o atgofion am yr hen ffyddloniaid. Y blaenoriaid canu cyntaf a gofiaf oedd Evan Owen a Jenkin Jenkins, y blaenaf yn grydd a'r olaf yn Bostfeistr yn Felinfach Yr oedd gan E.O. lais rhagorol iawn a chanai yn yr ysbryd ond yn colli mewn techneg. Nid oedd llais J.J. cystal ond yr oedd yn fwy deallus, yn fwy cywir a threfnus. Bu hefyd yn ysgrifennydd yr eglwys yma am flynyddoedd maith. Coffa da am ddau a fu'n frwd a selog. Ar ei ôl fe gefais i'm gwthio i'w swydd, ac ar yr un pryd cefais gynghorion i beidio ymhel a chanu " am fod cythraul ymhob canu ". Ond nid oes gennyf gof i mi ei weld na'i deimlo yn ystod fy nhaith hir. Gwnes ad-drefniant o'r lleisiau. Yn flaenorol canai'r gwrywod Soprano, a'r gwragedd a'r merched y Tenor. Cydnabyddwyd fod y trefniant newydd yn cynhyrchu melysach a phurach cynghanedd, fel y daeth y canu i fyny yn raddol i safon wir foddhaol, ac y mae'n ffaith ryfedd iawn i'w

chofnodi yng nghwrs y trigain mlynedd diweddaf mai'r rhan fenywaidd a wnaeth fwyaf o gynnydd o lawer iawn. Y mae'r Soprano a'r Alto ar uwch plane na'r Tenor a'r Bass.

Beth yw diben Canu. ?

Ni fuaswn yn cofio ond ychydig o Emynau a Salmau oni bae i mi ganu cymaint o honynt. Yn ein heglwysi a'n capeli y dyddiau hyn rhydd y cantorion y sylw mwyaf i'r Gerddoriaeth yn hytrach nag astudio syniad ac ysbryd Emyn a Barddoniaeth. Dyw sŵn ddim gwerth oni ellir ei droi'n gyfrwng i drosglwyddo eneiniad yr ysbryd i galon ac enaid y gwrandawr. Mae'n flin i feddwl fod yr Ysgol Gân wedi diffodd, a'r ymdrech fwyaf yn cael ei gwneud i foddloni beirniad Eisteddfod yn hytrach na'r Hwn a'n cynysgaeddodd â'r dalent a'r gallu i'w glodfori yn y modd uchaf mewn sain Cân a Moliant

Yr Ysgol Sul.

Cof gennyf am yr Ysgolfeistriaid David Davies, Y Gweydd ; David Isaac, y Teiliwr ; Thos. Jones, Cwmscawen ; Walter Jenkins, Glanwern ; Jenkin Jenkins, Felinfach ac eraill. Ar ôl y rhai yna bendith oedd cael gwasanaeth David Davies, Postfeistr, Felinfach, yr hwn a gadwai ddisgyblaeth ac a gyfrannai o'i ddysg a'i wybodaeth gyda brwdfrydedd anghyffredin.

Sut y mae hi heddiw ? Gwan iawn, ond nid yw'r hen aelwyd wedi oeri. Cawsom wasanaeth didwyll Miss Howells, Dolboidy, cyn iddi droi'n Mrs. Hawarth a byw yn Lloegr. Erys rhai o hyd. Diolch fod Miss Evans, Ceiro, yn cyfrannu o'i bodd o'i gwybodaeth helaeth, ac os am weld patrwn o ffyddlondeb, a darlun milwr dewr a'i gefn ar y mur, John Jenkins yw e ! O na ddoi rhagor o fobl o bob dosbarth, dysgedig ac anllythrennog, i gymryd rhan ym mheth pwysicaf bywyd.

Gwisgo.

Yr wyf am i'r Urdd yma i wisgo'n grand, ac ond i chwi wneud, e gurwch bob ffasiwn arall. Dyma'r pilynnod : Cydwybod oleuedig, Calon lân, a Chymeriad disglaer a difrycheulyd, ac yn perarogli pob peth o'ch cwmpas, a Duw yr heddwch a fyddo gyda chwi.

David Hughes.

Oddiar y Tŵr.

MYND trwy argyfwng pwysig, na ellir gweld ei derfyn eto yn glir iawn, a wna'r byd crefyddol yn ein dydd ni; a sŵn cwyno oblegid hynny a glywir o bob cyfeiriad. Nid yr argyfwng cyntaf yn hanes crefydd, mewn un modd, yw hwn; bu raid iddi fynd drwy ei gyffelyb aml i dro ynghwrs y canrifoedd. Fel yn achos y môr, felly yn achos crefydd, daw adegau o drai ac o lanw; a deuant agos mor reolaidd yn achos crefydd ag yn achos y môr, er nad yn hollol cyn amled. Wedi adeg o drai daw adeg o lanw; wedi cwsg, daw deffro; wedi adeg o farweidd-dra, daw adeg o fywyd cryf, ysgubol, anwrthwynebadwy.

* * *

Adeg y trai a'r cwsg a'r marweidd-dra yw'n hadeg ni. Diynni yw bywyd yr Eglwysi, meddir; oeraidd yw'r brwdfrydedd; yn wannaidd y cyn y tân ar yr allor; anwybyddu sefydliadau crefydd i fesur cynhyddol a wna'r dorf. Onid rhywbeth tebig i hyn yw'r gri a glywir? Ac oni roddir mynegiad aml i'r gri gydag acen a ymyla ar fod yn gwynfannus? Yn sicr, dyna ydyw'r gri a glywir drwy'r byd crefyddol yn gyffredinol; a disgyn ar ein clustiau gyda'r fath ddyfalwch nes peri cryn fesur o ddigalondid, a'n gyrru i dybied bod y byd yn mynd oriwaered (yn dirywio) yn gyflym. Gŵyr y cyfarwydd â gwir sefyllfa pethau nad defnyddio gormodiaeth a wnaf.

* * *

Beth, tybed, yw'r achos neu'r achosion a gyfrif am y sefyllfa? Onid cwestiwn yw hwn a wthir i'n sylw gyda'r fath nerth apeliadol nes peri inni roddi ystyriaeth o ddifrif iddo? Nid cwestiwn hawdd i ddod o hyd i ateb boddhaol iddo mo hono ychwaith. Eithr er yn gwestiwn anodd, nis anwybyddir; a lluosog yw'r ymgeisiadau i ddod o hyd i ateb neu atebion iddo. Un o'r ymgeisiadau hyn a berodd imi ddechreu ysgrifennu fel y gwneuthum.

* * *

Yn ddiweddar—yn ystod y dwy flynedd diweddaf—bu nifer o Americaniaid enwog yn gwneuthur ymchwiliad arbennig, manwl a thrwyadl i'r mater. Gwneid yr ymchwilwyr i fyny o bobl perthynol i bob cylch o fywyd—masnachwyr, gwyddonwyr, golygwyr papurau, addysgwyr, gweinidogion o'r enwadau lluosocaf, cynrychiolwyr y dô ifanc, a edrych ar bethau gyda llygad clir, craffus, heb eu dallu gan unmath ar ragfarnau, yn ogystal a hynafgwyr a fu'n dwyn pwys a gwres y dydd am oes gyfan. Afraid yw dywedyd na all ymchwiliad o'r math hwn lai na bod yn un trwyadl, diduedd, y gellir gosod cryn hyder ar ei gywirdeb. Nid

yw eu hadroddiad yn wybyddus eto ; eithr y mae digon o hono yn wybyddus i roddi inni gipdrem ar y casgliadau y daethant iddynt.

* * *

Beth, ynteu, yw'r achosion pennaf o'r argyfwng ? Cyfleir hwynt o dan dri phennawd. Un achos ydyw—syniad camsyniol am wir ystyr y gair gwyddor. Codir gwyddor, yn ôl a ddywedir, i dir na ddylid ei chodi iddo ; ac aml iawn y seilir casgliadau arni (ar ei darganfyddiadau) na ddyry rheswm diwylliedig unmath ar gefnogaeth iddynt. Achos arall ydyw—anallu crefydd i symud yr anghyfiawnder a'r anghydraddoldeb a'r gorthrwm a dreiddia fel cancr trwy bob cymal o gymdeithas. Dwg y ffaith hon i fod yn meddwl y werin syniad am grefydd fel math ar foddion cysgu—"dope" y'i gelwir yn Rwsia—i gadw'r bobl yn llonydd ac yn foddlongar eu cyflwr. Y mae cryn sylfaen i'r dyb hon am grefydd : dyna beth ydyw yn rhy aml—"dope". Achos arall, eto, yw'r brys a'r dadwrdd a'r afrywiogaeth a'r serthedd y sydd nodwedd mor amlwg o fywyd ein hamser.

* * *

Y mae gormod o wir yn hyn i gyd—y ffynna syniad amrwd, anaddfed, am wir ystyr y gair gwyddor ; bod gagendor rhy amlwg rhwng delfrydau goreu crefydd a chyflwr cymdeithas ; y'n bydderir gan sŵn y peiriannau o bobmath a dyr yn ddi-aros ymron ar ein clustiau, nes gwneuthur gwrando ar a elwir gan Dr. Channing yn "sisialadau'r enaid" y nesaf peth i'r amhosibl. Gwir iawn ydyw hyn i gyd.

* * *

Eithr tra'n cydnabod cywirdeb y casgliadau a ennwyd, eto, onid oes achos arall a gyfrif i fesur mwy o lawer na'r un o honynt am y sefyllfa y cwynir o'i phlegid—nid dim llai na'r colli neu'r gwanhau o'r nodyn o sicrwydd o barthed i grefydd a'i gwirioneddau a nodwedda ein hamser i fesur mor fawr. Nid ydym, bellach, ar y cyfan, mor sicr a'n tadau bod a gredwn yn ddiamheuol wir. Gwir ydyw y credwn ; eithr trwythir ein cred gan awel o anghrediniaeth ; neu, os nad anghrediniaeth, eto ansicrwydd.

* * *

Efallai mai un o effeithiau anocheladwy'r trosiad o iawnffyddiaeth y dyddiau a fu i ffydd mwy rhesymol os gwannach ein dydd ni ydyw'r ansicrwydd y cyfeiriwyd ato. Yn ddios, colli ei gafael ar feddyliau diwylliedig gyda chyflymder a wna'r hen iawnffyddiaeth. Ni ddywedaf ddiflannu o honi'n llwyr ; nid cywir a fyddai hynny ; colli ei gafael yn raddol a distaw a wna—graddoled a distawed fel y digwydd y trosiad ymron yn ddiarwybod i neb.

Un o nodweddau amlwg yr hen iawnffyddiaeth oedd ei nodyn o sicrwydd—nis blinid gan yr awel leiaf o amheuaeth. Gyda'i diflaniad hi, gwanhau a wna'r teimlad o sicrwydd—gwanhau nes ymron peidio o hono a bod. Oni ellir dal gwyddor—dal syniadau gau am wyddor, o leiaf—yn gyfrifol am yr ansicrwydd hwn? I'm tyb i, gellir—i fesur mawr iawn.

* * *

Nid sefyllfa hollol ddi-obaith, modd bynnag, mo'r sefyllfa. O daflu golwg tros ein hamser, oni welwn arwyddion, gwan o bosibl, amlwg er hynny, bod toriad gwawr dydd gwell yn ymyl. Nid tu fewn i'r Eglwysi yn unig y gwelir yr arwyddion hyn, eithr tu allan iddynt hefyd; yn wir, braidd na ellir dywedyd bod yr arwyddion tu allan i'r Eglwys yn fwy amlwg, yn sicr yn fwy calonogol, na'r arwyddion tu fewn iddynt. Onid gwir ydyw bod y fateroliaeth hagr a ffynnai hanner canrif yn ôl farw? Gŵyr pobun y sydd wedi darllen tipyn o lenyddiaeth wyddonol ddiweddar mai gwir ydyw. A diflannu'n gyflym a wna'r elyniaeth dybiedig rhwng crefydd a gwyddor. Nid deubeth na fedrant sefyll ynghyd mo crefydd a gwyddor; yn hytrach, llaw-forwynion i'w gilydd yn yr ymchwil am y gwirionedd ydynt; o leiaf, dyna beth a ddylent fod.

* * *

O son am y nodyn o sicrwydd mewn crefydd, daw i'm meddwl eiriau Esgob presennol Llandaff a ddarllenais pwy ddydd—i'r perwyl a ganlyn: "Beth am grefydd yn ein gwlad? Disigl yw fy ffydd. Credaf y gwelaf arwyddion o ddeffroad ac o adfywiad ffydd . . . Eithr nid ar arwyddion allanol yn unig y seiliaf fy ngobaith. Disigl yw fy ffydd am y rheswm y credaf mewn Duw er nas gwelaf. I mi, yr un ffaith yn y cyfanfyd na ellir ei dadymchwel yw'r ffaith o Dduw. Credaf weithio allan o Dduw ei ddibenion ar lwybrau hanes y ddynolryw. Credaf drigo o ysbryd y Crist byw mewn personoliaethau dynol, a thrwyddynt hwy weithio allan o hono ei ddibenion, nid trwy'r unigolyn yn unig, ond trwy'r Eglwys hefyd. Am y rheswm y credaf fel hyn, ansigladwy yw fy ffydd."

* * *

Gwyn fyd y neb a fedro lefaru geiriau mor gyfoethog o ffydd na ellir ei siglo. O'u darllen yn yr ysbryd iawn, oni'n dygir i gyffyrddiad ag awyrgylch rhyfeddol o iach ac adfywiol? Onid posibl ydyw mai o'r Eglwys y mae'r Esgob yn addurn mor ddisglair o honi y daw'r adfywiad nesaf?

D.E.

Coedwig yn Storm y Gaeaf.

DDIWEDYDD, wrth rodio drwy Allt Hen Geraint, teimlais dawelwch hudol o'm cylch.

Safai'r coed talgryf yn ddi-ysgog megys cwmni o ysbrydion llwydion. Estynnent eu cangau allan fel breichiau diymadferth. A barnu oddiwrth yr olygfa, tybiais imi lithro i fyd dieithr a marw,—heb sain o'i fewn nag osgo ar ei erwau.

Weithian, aflonyddwyd arnaf gan sŵn y dail crinion dan fy nhraed.

Ar fyr, crwydrodd murmur hir a dolefus dros y fangre. Clywais gasgliad o wahanol seiniau. Lluniodd hyn ddarnau o fiwsig dolefus a chywrain. Gwrandewais yn ddyfal, a'm hysbryd dan hudlath rhyw atgof gwan o orffennol pell.

Disgynnai griddfan lleddf yn donnau esmwyth dros gangau moelion y coed syth. Yna daeth eco ymhell megys o dafodau mil o glychau arian.

Wrth ymyl fy llwybr anturiodd rhai blodau yn wylaidd. Dihunwyd hwy, yn anamserol, gan wres tyner y ddeuddydd blaenorol. Erbyn hyn, golwg ddiflas oedd arnynt yng ngwg yr hin. Plygai'r lili wen fach ei phen. Tynnai blodyn y gwynt ei fantell yntau yn dyn. Crynai'r fintai mewn siom.

Crogi'n drist hefyd wnai blodau'r cyll ar gangau gwelw, gerllaw. Llethid cywion gwyddau yr helygen gan y tangnefedd prudd.

Hanner awr yn ôl, bum yn gwrando ar y frongoch, yr aderyn du, yr aderyn coch, y driw, y llinos, yr yswigw a'r fronfraith yn tynnu tannau eu telynau.

Canent, mi gredaf, i ddileu tipyn o'u dyled i lwyn rhoswydd a estynnodd iddynt wledd o aeron gloywgoch.

Dihunodd gwenau'r haul eu serch, a llawen oeddynt wrth flasu blaenffrwyth eu cariad.

Bellach, mud ydynt.

Hedant mewn dyryswch o gangen i lwyn nes disgyn i gysgod a lloches. Cwrcwdant yn daclus yno gan osod eu pen yn eu pluf, ac estyn eu tynged i freichiau Cwsg.

Cyn hir, cefais esboniad ar ddirgelwch y distawrwydd. Tyfodd y cwynion isel yn dwrw cynhyrfus. Yn ddisymwth, neidiodd y dail fel haid o deulu'r Tylwyth Teg. Rhedent ar y llawr yn chwareus o gylch bonion y coed.

Plygai brigau uchaf y deri at ei gilydd fel pe baent mewn cyngrair am gymorth.

Daeth distawrwydd llethol am eiliad. Ar amrant, wele ruthr ysgubol o wynt.

Dychwelodd tawelwch eilchwyl, ond llamodd berw gwyllt ar ei warthaf.

Droeon y digwyddodd y cyfnewidiadau hyn. Aeth yr heddwch, bob tro, yn ddyfnach, a dilynodd y cymhelri ef yn ffyrnicach, ffyrnicach.

Erbyn hyn, deellais fod holl gryfder y goedwig wedi ymarfogi i herio'r ddrycin.

Plygai'r cangau gan nadu—- "O-Hŵ ! — O-Hŵ ! — O-Hŵ-Hŵ." Mewn nwydau gwyllt, criai gewynnau'r colfennau wrth ymestyn allan am ei gilydd.

Cafwyd seibiant eto, a minnau'n gobeithio, weithian, fod yr ornest heibio. Ond,—na. Y funud nesaf chwarddodd, llefodd a llamodd y gwyntoedd yn hoyw mewn cynddaredd dieflig. Plygai'r coed dan yr ergydion, a rhoddodd y goedwig gyfan un ochenaid druenus. Credais yn wir imi ddeall neges y griddfan. Onid gŵys ydoedd i frwydr boethaf y blynyddoedd Yn bendifaddeu, tynnodd yr ymosodiad hwn y gronyn olaf o egni yng nghalon yr Allt. Craciai'r cangau mewn dicter, a chrynai'r boncyff wrth fwrw ei wreiddiau yn ddyfnach at gadernid.

Erbyn hyn, enillai'r storm ei hanterth, ac ni fu ball ar ei gerwinder hi. Daeth rheng ar ôl rheng ym myddin y ddrycin i'r maes, gan ddifrodi'n alaethus ar bob llaw.

Cafwyd tangnefedd am eiliad, ond darniwyd hwnnw â chrochlef. Duodd y ffurfafen. Rhuthrodd y cymylau pygddu yn feddw gan gynddaredd. Daeth meirch digofus yr ystorm, a'u ffrwyn ar eu gwar, gan ddamsang yn echrydus ar y goedwig wargam. Wrth ymyl, clywais dwrw anferth. Syllais yn wyllt o gylch, a gwelais, i'r chwith, dderwen yn syrthio'n araf dan ddyrnod y gwynt. Ceisiodd ei chymydogion ei chynnal, ond ofer fu'r caredigrwydd. Diwreiddiwyd hi, a diwerth, wedyn, fu gafael dwylo. Lledorweddodd ym mreichiau ei charedigion prysur. Ar hyn o bryd, ynghanol yr elfennau cynddeiriog, dychrynwyd fi i ymyl gwallgofrwydd. Pe meddwn nerth, cilio a wnawn,—ond syfrdan oeddwn.

Chwyrnellu o hyd, yn fwy penderfynol na chynt, a wnaeth yr ystorm. Aeth hanner awr o reibio heibio, a minnau'n llochesu'n dyn wrth goeden braff. Gwelais arwyddion fod yr ornest yn lleihau ei grym. Llesghau a wnai'r ergydion, ac ymunioni a fynnai'r cangau blin yn eu creithiau.

Yn yr hamdden, cerddais dros lwybr i waelod yr Allt. Yno, rhedai afon yn llawen a llyfn. Croesais dros bompren, a thrwy ddôl lydan. Ar dwyn, gyferbyn a'r Allt, safai fy nghartref, y Wenallt. Cyrchais ato yn gyflym. Weithian am nodded rhag y dymestl, a gwres rhag yr oerni.

Parhaodd y tawelwch am awr. Yn y cyfnod hwn disgynnodd plu'r eira, blith drafflith, o grothau'r cymylau duon. Gwisgwyd Gallt Hen Geraint yn araf ac ysgafn a mantell wen.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD
DEHEUDIR CYMRU.

GOLYGYDD—
Y Parch. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., LLANBEDR.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

— CYFRES LLANBEDR. —

CYFROL 32.
1932.

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

CYNNWYS.

Adolygiadau, 43, 125, 182.
Ar ben y Lôn, 200.
Arholiad yr Ysgol Sul, 1932, 144.
Arloeswyr ym Myd Crefydd Rydd yng Nghymru, 9, 21.
A ydyw Undodiaid yn Gristnogion? 160.

Bod yn Siriol, 198.

Cipdrem ar Hanes y Faenor, 59, 99, 115, 165, 180.
Coedwig yn Storm y Gaeaf, 237.
Cronfa'r Bwrdd Presbyteraidd, 245.
Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod, 245.
Cyfarfodydd Sefydlu, 239.
Cyfrinach y Mud, 152.
Cymanfa Ganu Cymdeithas De-Ddwyrain Cymru, 103.
Cyrddau Sefydlu'r Parch. T. L. Jones, 33.

Deio'r Gwahoddwr, 69.
Delfrydau Urdd y Benywod, 241.
Dr. Evan Evans, Aeron Villa, 74.
Dr. Evan Jones, Y.H., Y Bryn, 18.
Dychwelyd, 188.
Dyffryn Cletwr Fach, 15, 30, 77, 109, 141, 156, 175, 204, 215.

Eglwysi Alltyblaca, Capel-y-Bryn a Chapel-y-Cwm, 200.
Englyn—Y Parch. T. Arthur Thomas 138.
Er Cof am Arthur, 138.
Er Cof am Dr. Evan Evans (Doctor Tynant), 76.

Fy Hiraeth, 213.

Gair o Groeso, 195.
Gohebiaeth, 62, 87.
Gwendidau Undodiaeth, 189.
Gwna a Fedri, 72.

Hiraeth Dyffryn am y Doctor, 203.
Hughes Rhydyfydyr, 89.
Hwthwch y Tân, 248.

I Bentre Talgarreg, 248.
I Hen Lanc, 248.

Llwybr y Mynydd, 139.

Marwgofion, 19, 38, 63, 80, 103, 126, 147, 167, 184, 208, 226, 246.
Meddyliau Crwydr, 169.
Mrs. J. D. Lewis, 121.
Myfyrwyr a Chydwybod, 35.
Myfyrwyr a Chyfiawnder, 54.

Nadolig, 229.
Nodion yr Eglwysi, 20, 41, 86, 108, 127, 148, 167, 186, 228, 248.

Oddiar y Twr, 5, 50, 234.

Pennod o Adgofion, 231.
Priodasau, 19, 38, 63, 80, 126, 147, 184, 226.
Pwyllgor Gweithiol Eglwysi Cerediglon, 224.
Pwyllgor Gweithiol y Gymdeithas, 125.
Pwyllgor y Gymdeithas, 222.
Pwyllgor y Pasc, 101.

Resolution Blwyddyn Newydd, 1.
"Run Down", 65.

Siom, 45.
S.R., 149.
Storm o Fellt a Tharanau, 113.

The General Assembly Centenary Fund, 225.
'Tis an Old Belief, 203.
Tôn—"Awelfryn", 128.
Tri Pheth yn erbyn Undodiaeth, 94.

Urdd y Benywod, 43, 93, 245.

Y Beibl, 181.
Ydfaes o dan Leuad Medi, 173.
Y Gobaith Gwyn, 88.
Y Gweinidog, 201.
Y Gymanfa Ganu, 163.
Y "Means Test," 209.
Y Nerfau, 219.
You ask me why, Tho' ill at ease, 208.
Y Parch. T. Arthur Thomas, 129.
Eto, fel Dyn Cyhoeddus, 133.
Eto, y Câr a'r Cyfaill, 136.
Y Pwyllgor Blynyddol, 178.
Yr Ewyllys i Orchfygu, 117.
Yr Iorddonen, 88.
Yr Undodiaid yng Nghymru, 47.
Y Syniad o Dduw, 123.

Ai amdo ydoedd? Na. Gwell gennyf gredu mai eli a fu at glwyfau'r colfenni. O leiaf, ymhen ychydig amser ni welais erioed olygfa brydferthach. Trymhau wnai pwysau'r eira ar y cangau, er na fu gyffro ymysg y brigau. Ymddangosai'r coed megys colofnau mawreddog o farmor, ac urddas y gaeaf wedi ei wau amdanynt.

Ar fyr, ymddadebrodd ysbryd y ddrycin. Bu'n cyniwair drwy'r gwyll gan luwchio'n brydferth nes creu y delwau mwyaf rhamantus.

Cyn imi noswylio, mynnais un olwg o'r rhiniog. Hysiai'r gwynt fel miloedd o seirff. Ysgubai'n arswydus drwy'r Allt, a rhuai rhwng y coed megys tyrfa o lewod newynog.

O holltau'r cymylau trwchus ceir lliw rhwd ar y lloer wen wrth wenu am eiliad.

"Sŵn cynni sy'n y ceunant,
Clyw'r nos y rhew yn cloi'r nant."

J.S.R.

Cyfarfodydd Sefydlu.

NID peth cyffredin yn ein hanes yw sefydlu gweinidog. Y mae'r mwyafrif ohonom chwedl Dartmŵr a mannau eraill yn *lifers*—hynny yw—yr ym yno dros ein hoes ac yn cael ys dywedai un hen weinidog *farw* yn yr *harnais*. Meddyliais athronyddu tipyn a'r *Sefydlu* ac *Ordeinio* ond daeth cysgod y Parch. David Evans fel cysgod Petr gynt drosof ac ymataliaf. "Gwaith pawb gwaith neb" medd y ddihareb. Felly gyda'r cyfarfodydd hyn. Medrai tri neu bedwar wneud y gwaith. Gallasem ddisgwyl yr hen weinidog ysgrifennu pennod atgof a rhwymo atgofion doe a heddiw yn un ysgub ond ni wnaeth.* Gallasem ddisgwyl i'r gweinidog ifanc i freuddwydio breuddwydion a dangos i ni y llwybr byr i gael trefn o'r anrhefn. Ni wnaeth. Gallasem ddisgwyl i ysgrifennydd parchus y Gymdeithas groniclo hanes y cyfarfodydd gyda gweithrediadau'r dydd ond ni pherthynai hyn i'w swydd. Nid oedd neb felly yn fodlon gwneud ac nid oedd dim amdani ond ceisio gan ein Special Correspondent i roi inni adroddiad byr rhag iddo ddianc heb ei groniclo.

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd ar Brynhawn a Hwyr Iau, Hydref 13, yng Nghapel-y-Groes. Er ymddiswyddo o'r Parch. David Evans yr oedd Capel-y-Groes a Chribyn wedi bod heb weinidog ac nid da oedi gormod. Ofnwn unwaith fod yr *engagement* yn rhy hir ond daeth y dydd dedwydd ac yn ôl yr arwyddion erbyn hyn y

* Cefais adroddiad penigamp ganddo wedi cysodi hwn. Trueni cael Two Richmonds.

mae'r dyfodol yn llawer disgleiriach na disgwyl llawer. Y mae'n hyfrydwch clywed pawb yn siarad mor barchus o'r gweinidog newydd. Oni ddaw stormydd annisgwyl credaf ei fod yntau wedi cael life-sentence ac y clym y cynulleidfaoedd yn dynnach dynnach. amdano fel na fedr dim ond angau ddatod y cwlwm.

Cawsom gyfarfodydd melys a bendithiol. Dyma'r trydydd sefydliad i mi fod ynddo yng nghorff y flwyddyn, Cefncoed, Gellionnen a Threbanos a Chapel-y-Groes a'r Cribyn. Nid ar fyr y byddaf yn canmol ond i mi dyna dri chwrdd mwyaf melys a bendithiol y bum ynddynt. Yr oedd yn werth bod ynddynt.

Dechreuwyd Cyfarfod y Prynhawn gan y Parch. S. E. Bowen a siaradodd y Parch. David Evans fel ef ei hun, nage, yn anhraethol well nag ef ei hun a gallasem broffwydo llwyddiant ei weinidogaeth o weld y *twinkle* chwareus yn ei lygad ac o'i weld yn rhoi'i fendith fel Esgob yr enwad bellach ac fel cyn-weinidog ar y gweinidog ifanc. Pan roes ei law iddo, nid llaw a roes ond calon, ïe, a chydweithrediad. Yr wyf wedi clywed Mr. Evans droion ond fel llywydd am y dydd yr oedd wedi rhagori arno ef ei hun. Siaradodd Evan Thomas ar ran Capel-y-Groes ac Evan Davies ar ran Cribyn, y Parch. Mr. Morris ar ran yr hen fyfyrwyr, Miss Jones, Gellifaharen ar ran cynulleidfa'r Llwyn a'r Parch. T. O. Williams, M.A. ar ran gweinidogion y cylch.

Atebodd y gweinidog newydd yn ddwys dyner. Pefriai deigryn yn ei lygaid wrth sôn am y brwydro ac wrth ddiolch am bob help—ni anghofiodd neb a fu'n dyner wrtho a chredaf iddo ennill calon y cynulleidfaoedd a'i araith seml, ddwys, llawn dagrau.

Wedi'r siarad traddododd y Prifathro Park Davies, M.A., B.D. siars i'r gweinidog newydd a rhwydd gweld mai "Dewi" oedd i'r Prifathro a bod ganddo le cynnes iddo. Yn yr hwyr dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Mr. Morris a thraddodwyd siars i'r gynulleidfa ac i'r holl gynulleidfaoedd gan y Parch. E. O. Jenkins, hen weinidog y gweinidog newydd. Galwad oedd ganddo a honno'n alwad deg a seml—am beidio gwneud a chrefydd yn wahanol i alwadau eraill bywyd—peidio cynhilo mewn arian nac amser na gwasanaeth yn y Capel yn unig nac yn bennaf.

Yr oedd y Capel yn orlawn drwy'r dydd ac ni chafodd neb well cynulleidfaoedd na gwell cyfarfodydd sefydlu. Gobeithio eu bod yn arwyddocaol ac y bydd bendith gyfoethog y nef yn dilyn ei gamre yn Nyffryn Grannell. Y mae'n dilyn cewri ymhob ystyr. Ys dywedai'r diweddar Syr Henry Jones pan gafodd alwad i ddilyn Caird "Yr own bron a'm llethu o feddwl y disgwylid i mi fod yn rhyw ail Caird hyd nes y gwawriodd arnaf na ddisgwylid i mi fod ond 'plain Henry Jones'." Cymred "Dewi" 'r cysur hwn a medr wneud diwrnod da o waith yn ei ffordd ei hun yng ngwinllan Duw.

N. a N.

Delfrydau Urdd y Benywod.

(*Anerchiad yng Nghyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod yn Llandysul*).

'RWYF am ddweyd yn y lle cyntaf, ei bod yn llawenydd mawr gennyf i fod yn bresennol yn un o'ch cyfarfodydd unwaith eto, a theimlaf yn ddiolchgar am y cyfleusdra a'r anrhydedd i ddweyd ychydig eiriau. 'Rwyf hefyd wrth gychwyn am longyfarch yr Urdd ar y cynnydd y mae wedi wneud mewn cyfnod mor fyr.

Nid oes amser mawr er pan gyfarfuom yng Nghapel-y-Groes a'r Llwyn er mwyn gosod y symudiad ar droed. 'Rwyf wedi dilyn hanes cynnydd a datblygiad yr Urdd oddiar hynny gyda llawer o fwyniant. Deallaf fod yna bellach gangen yn perthyn i bob Capel yn y Gymdeithas a'u bod i gyd yn ddiwyd mewn ffordd neu gilydd. Y Swyddogion o bosibl sydd i'w canmol am hyn yn bennaf, ond ni fedr hyd yn oed yr arweinwyr gorau sicrhau llwyddiant heb fod yr Aelodau ereill yn barod i'w canlyn.

'Rwy'n sicr fy mod yn datgan teimlad yr Urdd yn gyffredinol pan ddwedaf ein bod yn hyderu fod yna ddyfodol o lwyddiant a gweithgarwch mawr i'r symudiad yn Sir Aberteifi, fel y byddo iddo brofi ei hun yn llaw-forwyn ddefnyddiol i'r achos Undodaidd yn ei holl gysylltiadau.

Feallai mai perigl mwyaf pob symudiad newydd—pan y mae sêl a brwdfrydedd yn naturiol yn cael lle blaenllaw a phan y mae datblygiad y gyfundrefn sydd gennym yn cael sylw neillduol—yw colli golwg ar yr egwyddorion ar ba rai y mae'n symudiad yn seiliedig, ac ar yr amcanion y dylasai geisio gyrraedd tuag atynt.

Felly am ychydig amser y prynhawn yma 'rwyf am alw sylw at rai o'r delfrydau y sydd yn gysylltiedig a'r Urdd.

O brin y mae eisiau pwysleisio'r gwirionedd fod rhyw fath o ddelfryd yn anghenrheidiol i wir lwyddiant ym mhob gwaith ac ymhob agwedd o fywyd.

Un o orchmynion mawr Duw i Moses pan oedd yn y diffaethwch oedd ar iddo wneuthur y cyfan yn ôl y portread a ddangoswyd iddo yn y Mynydd. Hyn yn ddiameu sydd i gyfrif yn fwy na dim arall am fawredd moesol ac ysprydol y genedl Iddewig—fod ganddi ddelfryd ddwyfol o'r dechreu i gyrchu ati.

Delfryd gyffelyb oedd gan y Cristnogion cyntaf i'w nerthu a'u hysprydoli yn eu anhawsterau. I nodi ond un engraifft— hyn a fu yn gysur a nerth i Ioan pan oedd yn garcharor ar ynys Patmos : " Mi a welais " meddai " y ddinas Sanctaidd—Jerusalem Newydd, yn dyfod oddiwrth Dduw i waered o'r Nef."

Angen mawr y byd heddiw—pan y mae cymaint o ddryswch ac aflonyddwch ym mhob cyfeiriad—yw delfrydau a chredaf fod yr Urdd am bwysleisio hyn yn fwy na dim arall.

Yn y lle cyntaf, mae gan yr Urdd ddelfryd mewn perthynas i'r Cartref a'r bywyd teuluol.

Nis gellir amau nad oes yna ddylanwadau ar waith heddiw, sydd a'u tuedd i ddibrisio gwerth a sancteiddrwydd y Cartref. Mae gan amgylchiadau cymdeithasol lawer i wneud â hyn. Un o ganlyniadau anffodus diffyg gwaith a thlodi yw creu diflastod ac anniddanwch ar yr aelwyd a hwyr neu hwyrach fe wna hyn wenwyno'r awyrgylch a gwneud y Cartref yn bopeth ond a ddylasai fod.

Ymhellach, cawn fod gennym heddiw lawer iawn o wrthatyniadau (counter-attractions) i'r Cartref yn y byd cymdeithasol. Y mae hyn feallai yn wir am y trefi yn fwy nag am y wlad. Ond drwy'r byd yn gyffredinol mae yna duedd yn y dyddiau hyn i gefnu ar aelwyd a chwilio am gymdeithas a chysur mewn mannau ereill a llawer o honynt—a dweyd y lleiaf—yn anffafriol i ddatblygiad moesol ac ysprydol.

Yn fwy na'r cyfan, ac fel arwydd o'r hyn y soniaf am dano, cawn fod rhai o ddysgawdwyr mwyaf adnabyddus y dydd yn ymosod ar y Cartref fel sefydliad a cheisio dangos ei fod wedi cyrraedd pen draw ei ddefnyddioldeb a'i bod yn amser bellach i newid ei natur, neu, ynteu ei ddiddymu yn gyfangwbl.

Un o ysgrifennwyr mwyaf poblogaidd y dydd yw Bertrand Russel. Dywedir fod mwy o ddarllen ar ei lyfrau mewn gwledydd eraill nag hyd yn oed yn y wlad hon. Y ddau dramgwydd mwyaf ar ffordd blaenfynediad y ddynoliaeth yn ôl ei syniad ef yw—y grefydd Gristnogol a'r Cartref—o'r hyn leiaf yn ôl ystyr arferol y ddau air. Mae yna lawer o leisiau eraill heblaw ei eiddo ef yn dysgu yr un athrawiaeth.

Yn wyneb ffeithiau fel hyn y mae yn ddyletswydd arnom ni fel Aelodau o'r Urdd i fod yn wyliadwrus. Credwn fod y Cartref yn sefyll am yr hyn sydd orau yn ein bywyd. Ef yw crud y ddynoliaeth. Y Cartref yw y man lle y gosodir i lawr sylfaen dyfodol pob un o honom. Nid yw yr addysg a dderbynir gennym yn ddiweddarach ond goruwch-adeilad.

Y ddelfryd sydd gan yr Urdd yn y cysylltiad hwn yw ar ein bod ni bawb o honom yn ôl ein gallu a'n dylanwad yn gwneud y Cartref *yn wir ganolfan cymdeithasol y teulu* ac yn ffynhonnell iechyd, a phurdeb, cariad ac hapusrwydd.

Rhoddodd Robert Burns fynegiad i wirionedd pwysig pan ddywedodd

> "To make a happy fireside clime
> To weans and wife,
> That's the true pathos and sublime
> of human life."

Delfryd bwysig arall sydd gan yr Urdd i ni fel aelodau yw ceisio gwneud ein *Cydaddoliad* ar y Sul yn fwy buddiol ac ysprydol. Gesyd yr Urdd bwys neillduol ar y mater hwn. Ein tuedd ni yn ormodol y dyddiau hyn yw gosod y cyfrifoldeb i gyd ar ysgwyddau y Gweinidog a disgwyl iddo wneud nid yn unig ei ran ei hun ond ein rhan ninnau yn ogystal. Nid yw hyn yn deg, ac 'rwyf am bwysleisio fod yna lawer iawn yn y cysylltiad hwn ag y medrwn ni fel aelodau o'r Urdd wneud i'w gynorthwyo.

Diffyg mawr mewn ambell i fan yw fod yr addoliad yn cael ei gynnal mewn adeilad heb fod yna unrhyw foddion i'w gynhesu. Nid peth hawdd yw i unrhyw bregethwr wresogi'r serchiadau pan fyddo'r gwrandawyr yn oer ac anesmwyth.

Y mae yna lawer o gyfeiriadau ym mha rai y medrwn gynorthwyo heb law hyn. Y peth mawr mewn addoliad yw ceisio creu y fath awyrgylch fel y byddo'r enaid o'i ran ei hun yn medru esgyn ar adenydd ffydd a gobaith i gysylltiad a'r hyn sydd ysprydol a thragwyddol. I sicrhau hyn, rhaid fod yna ddistawrwydd a llonyddwch ac ymddygiad gweddaidd yn yr adeilad.

Mae yna le am welliant yng nglyn â'r canu a'r casglu—gofalu fod y cyntaf yn gymorth i'r gwasanaeth ac fod y casglu yn weddaidd ac yn gyfryw na fydd yn ymyrru ag yspryd ac amcan yr addoliad.

Nid oes derfyn i gylch gweithgarwch yr Urdd ynglyn a Chrefydd. Yn fwy na'r cyfan, dylem ymdrechu fod yn gyson ac yn brydlon yn y gwasanaethau ar y Sul ac ar bob achlysur arall pan yw yn bosibl. Drwy ein hesiampl fe fyddwn yn anogaeth i eraill ac yn enwedig i'r bobl ifainc i wneud y Capel a'r Ysgol Sul, y Cwrdd Cymundeb a phob sefydliad arall sydd yn dal cysylltiad a Chrefydd yn allu yn yr ardal yn yr hon yr ydym yn byw.

Nid oes le yn yr Urdd i *ddifaterwch* yn y cyfeiriad hwn ac fe ddisgwylir i bob un o honom fel aelodau i fod yn *gangen fyw* o'r Eglwys ac i ddwyn y ffrwyth gorau a fedrwn.

Nid oes amser i enwi ond un ddelfryd arall, ac y mae hon eto o'r pwys mwyaf o safbwynt yr Urdd.

Un o'r pethau a ddylai fod gennym mewn golwg bob amser fel aelodau o'r Urdd yw *Sancteiddrwydd gwaith a gwasanaeth.* Prinder gwaith yw un o'r problemau mwyaf dyrys y sydd gennym y dyddiau hyn. Gwna hyn arwain nid yn unig i golled faterol ond i ddirywiad moesol ac ysprydol. Dylasem edrych ar waith nid yn gymaint fel moddion i gynnal y corff ond fel cyfrwng i feithrin y gallu a'r posibilrwydd y mae Duw wedi osod yn ein meddiant.

Y syniad sydd gan lawer yn yr oes bresennol yw fod gwaith yn rhywbeth anffodus, ac mai peth priodol yw ei osgoi pan fyddo hynny yn bosibl. Fe ddisgwylir i'r Urdd ddangos fod hyn yn anghywir.

'Roedd yna erthygl ragorol yn y rhifyn diweddaf o'r "Inquirer" yn galw sylw at yr angenrheidrwydd i ogoneddu a gosod y gwerth priodol ar *orchwylion cyffredin beunyddiol* bywyd.

Yn ôl yr hen Rufeiniaid gynt, yr oedd gwaith yn gyfystyr a gweddi. Fe ddysg Iesu yr un gwirionedd—"Y mae fy Nhad meddai, yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf innau yn gweithio." "Ni ddeuthum *i'm* gwasanaethu ond *i* wasanaethu, a gosod fy einioes yn bridwerth dros lawer."

Ein harwyddair ddylai fod—Gwaith i bawb, a cheisio gan bawb i edrych ar y gwaith hwnnw, gan nad beth yw, gwaith a llaw, neu unrhyw waith arall—fel rhan o gynllun a rhagluniaeth Duw ym mywyd dyn.

Every workman in the quarry,
  Every builder on the shore,
Every woodman in the forest,
  Every boatman at the oar;
Hewing wood and drawing water,
  Splitting stones and clearing sod;
All the dusty ranks of labour
  In the regiment of God—
March together toward His temple,
  Do the tasks His hands prepare;
Honest toil is holy service,
  Faithful work is praise and prayer.

Mae gyda ni nôd a delfrydau godidog fel Urdd i geisio cyrraedd atynt. Nid oes eisieu inni anghofio ac esgeuluso y pethau bychain—y manylion. Rhaid inni ofalu am y gyfundrefn megis ag y mae yn ofynol i ddyn ofalu am iechyd y corff materol. Ond wrth wneud hyn, rhaid inni gadw golwg ar wir amcanion ein bodolaeth.

Ond inni gadw y tri pheth a soniais amdanynt—Cartref, Crefydd a Gwasanaeth—yn wastadol mewn cof, ni fydd perigl i ni wyro ymhell oddiar y briffordd.

Gwyddom fod bywyd fel y mae heddiw yn fyr iawn o'r hyn y dylasai ac y gallasai fod.

'Rwyn sicr ein bod ni i gyd yn hyderu yn fawr y bydd i'r Urdd fod yn gyfrwng effeithiol i wneud cyflwr y byd yn well a dwyn ein bywydau ein hunain a bywydau ein cyd-ddynion i gymundeb agosach ag ewyllys y Nefoedd.

H. Park Davies.

Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod dydd Sadwrn, Tachwedd 26, 1932, ynghapel y Graig, Llandysul. Daeth rhyw gant a hanner, mwy neu lai, o aelodau ynghyd a chynrychiolid pob cangen. Awd drwy'r rhannau arweiniol gan Miss Joan Owen, Llandysul a llywyddwyd gan Mrs. Jones, y Bryn, Llanybyther.

Etholwyd Mrs. Jones yn llywydd am eleni eto oherwydd na fedrai Mrs. Jones, y Gellifaharen yr Is-lywydd gymryd y Gadair. Etholwyd Mrs. Daisy Williams, Brynllewelyn yn Is-lywydd am 1932—33.

Derbyniwyd ymddiswyddiad Mrs. Williams, Barclays Bank, Llanybyther fel Trysoryddes ar ei hymadael am Ogledd Cymru ac etholwyd Mrs. Jenkins, Barclays Bank, Llanybyther i'r swydd. Etholwyd hefyd Miss Williams, Awelfryn, Alltyplaca i fod yn gyd-ysgrifennydd a Miss Evans, Ffynnonfair.

Penderfynwyd fod y Cyfarfod i gwrdd a Miss Lee i'w gael ei gynnal yn Rhydygwin tua diwedd Chwefror a'r Cyfarfod Blynyddol ym Mrondeifi yr Hydref nesaf.

Traddodwyd dau anerchiad goddidog—un yn Gymraeg gan Mrs. Park Davies (gweler ef yn y rhifyn hwn) a'r llall yn Saesneg gan Mrs. Barnard merch Gwilym Marles—pennod o adgofion megis ac o awgrymiadau gwerthfawr. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan Miss Jones, Gellifaharen a Mrs. Davies, Llwynifan. Siaradwyd ymhellach gan Mrs. Jones, Jeweller, Llandysul. Siaradai Mrs. Jones yn gartrefol a llonnai calon y gweinidogion a oedd yn bresennol oherwydd iddi "*ein cofio ni*."

Nid yw hynyna ond byr hanes oherwydd na fedrai'r Press Correspondent "Miss Jones, Gellifaharen" anfon llith llawn.

N. a N.

Cronfa'r Bwrdd Presbyteraidd.

Dro'n ôl bu dirprwyaeth o Brifysgol Cymruyn a dolygu'r cwrs addysg a ddarperir i fyfyrwyr Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Wedi derbyn adroddiad y dirprwywyr penderfynodd y Bwrdd Presbyteraidd, a lywodraetha'r Coleg, i fabwysiadu'r cyfnewidiadau a awgrymid. Fel canlyniad penderfynasant i anfon y myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf i un o Golegau'r Brifysgol ac yna eu derbyn i'r Coleg yng Nghaerfyrddin am gwrs tair blynedd mewn Diwinyddiaeth a phynciau perthynol. Gan y costiai'r cynllun fwy na'r hen drefn ac fod y Bwrdd yn brin o gyllid gwahoddasant gynrychiolwyr o'r gwahanol enwadau i'w cyfarfod yn y gobaith y caent ganddynt i addaw cymorth ariannol mwy ar y raddfa ganlynol:—

Annibynwyr	...	...	...	...	£175
Bedyddwyr	...	...	...	...	£50
Undodiaid	...	...	...	...	£25

Teimlai cynrychiolwyr yr enwad Undodaidd fod y gwelliant yn y cwrs yn gyfryw fel y dylid gwneuthur pob ymgais i gyfarfod dymuniadau'r Bwrdd. Mewn cyfarfod diweddarach penderfynasant i wneuthur eu gorau i gasglu'r

arian gofynnol yn answyddogol o leiaf yn ystod blwyddyn brawf y cynllun ac i ofyn i'r Parch. E. Rosalind Lee, M.A. a Mr. W. S. Jones i geisio'r tanysgrifiadau oddiwrth garedigion yr achos. Wele restr o'r cyfraniadau a dderbyniwyd :—

	£	s.	c.
Capel Highland Place, Aberdâr	2	0	0
Misses Griffiths, Poplars, Aberdâr	1	1	0
Mr. W. R. Morgan, Aberdâr	1	1	0
Mr. T. Botting, Aberdâr	1	1	0
Y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr	0	5	0
Y Prifathro J. Park Davies, Caerfyrddin	0	10	0
Y Parch. G. Eyre Evans, Caerfyrddin	0	10	0
Capel Glanrhondda...	0	10	0
Capel Notais	0	16	0
Mr. S. Lewis, Pontypridd	0	5	0
Miss G, Lewis, Pontypridd	0	5	0
Capel Abertawe	3	3	0
Dr. Tom Evans, Abertawe	1	1	0
Miss R. E. Jones, Abertawe	1	0	0
Y Parch. E. Rosalind Lee, Abertawe	0	10	6
Miss Olwen Jones, Abertawe	0	10	0
Miss Marles Thomas, Aberystwyth	0	5	0
Mr. A. T. Grindley, Aberystwyth	1	0	0
Mr. W. S. Jones, Aberystwyth	1	1	0
Mr. Thomas Thomas, Llandysul	1	1	0
Mrs. Jones, Gwion Castle, Llandysul	0	10	0
Mrs. Jones, 1, Wind Street, Llandysul	0	7	6
Y Parch. D. Evans, Cwmiago, Llanybydder	0	10	0
Y Parch. Lewis Williams, Awelfryn, Llanybydder	0	2	6
Mr. Meredith Williams, Penralltnewydd, Llanybydder	0	10	6
Mr. J. B. Williams, Kerry	1	0	0
Y Parch. T. O. Williams, Llanbedr	0	10	0
Mrs. M. A. Jones, Llanbedr	0	2	6
Mr. J. Thomas, Frondolau, Ceinewydd	1	1	0
Miss Thomas, eto	0	5	0
Y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen	0	10	0
Mr. D. Jones, Dolgerdd, Talgarreg	0	5	0
Y Parch. J. D. Jones, Trebanos	0	10	0
Mrs. J. Hudson, Bryste	0	10	0
Y Parch. H. H. C. Jones, Aberdeen	0	10	6

Marwgofion.

Hydref 16, yn 37 oed, bu farw Judith Mary Davies, Troedrhiw, Blaenewrt ar ôl cystudd caled. Syrthiodd tra wrth ei gwaith, a aed â hi i glafdy Aberystwyth. Ond methwyd a gwneuthur dim i'w hadfer i'w hiechyd, a bu raid iddi ddychwel adref. O hynny allan gwaethygodd bob dydd nes ei marw. Cafodd bob gofal a thiriondeb hyd eithaf eu gallu gartref. Yr oedd yn ferch na ellir dweyd dim yn rhy dda amdani ; un garedig a gwasanaethgar, diddrwg a didwyll, ac yn hynod ofalus am ei chartref. Ymdrechodd yn galed er gwneud ei hun yn ddefnyddiol mewn bywyd. 'Roedd pawb yn hoff o Judith, ac yr oedd

gan bawb a'i hadwaenai air da iddi. Gadawodd fam, dau o frodyr, ynghyd a pherthynasau agos ereill i wylo ei cholli. Rhaid fod y brofedigaeth yn un lem i'r fam a'r brawd sydd gartref. Ein hyder yw y cânt brofi o'r nerth sy'n ôl y dydd, ac y bydd iddynt deimlo cysgod y Goruchaf drostynt. Dydd Iau dilynol y bu'r gladdedigaeth a daeth torf luosog ynghyd fel arwydd o barch iddi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; yn y capel gan y Parchn. Dewi J. Jones a S. E. Bowen, Alltyplaca, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr.

Aeth Judith fad drwy'r adwy,—
chwaer ysig!
A chroesodd oer drothwy;
Nef Gabriel Iôn fo'i gwobrwy,
Hoff i'm oedd, bydd ddisgloff mwy.
CRIBIN BACH.

DYDD Gwener, Hydref 28ain, bu farw Mr. D. R. Griffiths, Pantglas, Llewelyn Street, Trecynon, yn 57 oed. Hanai o deulu adnabyddus a pharchus yn yr ardal, ac o ochr ei fam yr oedd yn ŵyr i'r bardd a'r Eisteddfodwr enwog Carw Coch. Braidd y gallasem feddwl ychydig flynyddoedd yn ôl, o edrych ar ei gorff lluniaidd a braf, y byddai diwedd ei yrfa cyn gynted. Tua dwy flynedd yn ôl, tra yr ydoedd ym Mhorthcawl am ychydig seibiant, tarawyd ef yn glaf ac oddiar yr amser hynny gwaethygu a wnaeth. Mae'r cylch wedi colli dinesydd amlwg a gweithgar ac fe fydd ei farwolaeth yn golled enfawr i amryw sefydliadau dyngarol. Ynddo hefyd mae'r Hen Dŷ Cwrdd wedi colli aelod ffyddlon a gwerthfawr a chefnogwr hael ar hyd y blynyddoedd. Nid oedd mudiad yn Aberdâr a'r cylch tuag at lesiant cymdeithas nad oedd ef yn cymryd rhan bwysig ynddo. Nid oedd gwaith ei gymell i helpu unrhyw achos da ac yr oedd yn gyfaill trwyadl a ffyddlon. Colled fawr i'r ardal yw ei golli ef ac yn enwedig felly i'r Hen Dŷ Cwrdd. Claddwyd dydd Mawrth, Tachwedd y laf yn y fynwent gyhoeddus pryd y daeth tyrfa fawr ynghyd, cynrychiolwyr o bob dosbarth. Cyflwynwn i'r chwaer ac i'r brodyr ein cydymdeimlad llwyraf yn eu gofid a'u hiraeth ar ôl un oedd yn hoff iawn ganddynt. Gwasanaethwyd gan y Parchn. B. M. K. James, Highland Place, ac E. R. Dennis.

AR y 9fed o Dachwedd, yn 29 oed, yn dra disymwth, bu farw Jane Mary, annwyl ferch George a Jane Davies, Bryngwinau, plwyf Llanwenog, er galar dwys i'w rhieni, a'i chwaer a brawd, a'i darpar-briod, a pherthynasau agos eraill. Mewn gwasanaeth yn y Brif Ddinas y bu er's rhai blynyddoedd; ac ymhobman y bu ynddo, enillodd barch ac ymddiriedaeth llwyraf y rhai a wasanaethid ganddi, ar gyfrif ei didwylledd a'i ffyddlondeb a'i sirioldeb a'i hanian ddiniwed. A barnu wrth yr olwg allanol, merch ieuanc iachus a chryfgyfansoddiad ydoedd, a phrydferth o bryd; er hyn, ni fwynhaodd iechyd cryf er's amryw flynyddoedd, a bu raid iddi wrth aml i dymor o seibiant yn ei chartref. Yn ddiweddar, tybid bod sail i gredu ei bod wedi cael llwyr adferiad; a dyna oedd ei theimlad hithau, yn ôl tystiolaethai yn ystod ei gwyliau arferol ychydig fisoedd yn ôl; eithr amlwg ydyw mai ymddangosiadol oedd y gwelliant, a daeth y diwedd yn annisgwyliadwy. Bu ei marw yn achos i ddeffro arddangosiadau rhyfeddol a chyffredinol o gydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth chwerw. Nid yn unig i'w theulu y perodd ei marw alar, eithr i gylch eang ei hadnabyddiaeth hefyd; oblegid merch ydoedd a fawr hoffid gan bawb a ddaeth i gyffyrddiad agos â hi. Perthynai iddi elfennau rhyfeddol o ddymunol. A thra sicr ydyw nad oedd iddi elyn; os oedd, nid hi oedd gyfrifol am yr elyniaeth; ni wnai ddrwg i neb, ni feddyliau ddrwg am neb, wyneb â gwên siriol yn daenedig trosto oedd ei hwyneb yn wastadol, ni wyddai beth oedd gŵg. Ymaelododd yng Nghapelygroes pan oedd ieuanc iawn, a hyd ei symud i Lunden bu'n rhyfeddol o ffyddlon; a hyd yn oed wedi iddi symud, parhaodd ei chys-

ylltiad ag ef. I bawb, côf melys iawn yw'r côf am dani. Nerth a gaffo ei theulu i ddal i fyny dan yr ergyd caled. Dygpwyd ei chorff i gladdfa'r teulu yn Llanwnnen, ac ar yr 21ain y bu'r gladdedigaeth (anghyhoedd). Arweiniwyd y gwasanaeth arferol gan y ficer, y Parch. B. Davies, ac ar ei wahoddiad ef darllenwyd pennod y gladdedigaeth yn effeithiol a theimladwy gan weinidog Capel-y-Groes, y Parch. Dewi J. Jones, a thraddodwyd anerchiad byr gan y Parch. D. Evans, Cwmiago. Ffarweliwn â hi, "hyd oni wawrio'r dydd, a chilio o'r cysgodion."

Nodion yr Eglwysi.

CRIBYN.—Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn y lle uchod Nos Iau, Hydref 20. Gwasanaethwyd gan y Parch. Morris Jones (A), Drefach a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Yr oedd y capel yn orlawn a chafwyd dwy bregeth dda. Teimlwn yn wir ddiolchgar iddynt ill dau am ddod.

CAPELYGROES.—Nos Sul, Hydref 30, cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y Cynhaeaf a gwasanaethwyd gan y Parch. David Evans, y cyn-weinidog. Cafwyd cynulliad da a'r noson mor anffafriol. Rhoddodd i ni yn ôl ei arfer bregeth dda. Diolchwn yn gynnes iddo am ei wasanaeth.

BWLCHYFADFA.—Nos Iau, yr 17eg o Dachwedd, cafwyd noson lawen a gwledd o De yn y lle hwn o dan nawdd Urdd y Benywod. Aeth popeth yn hwylus iawn.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd noson o De a chyfeillachu yma nos Wener, Tachwedd 18, wedi ei darparu gan Urdd y Benywod. Daeth nifer dda ynghyd a chafwyd tair awr gwir ddymunol.

Y GYMANFA GANU.—Cynhelir yr Wyl Gerddorol y flwyddyn nesaf yng nghapel Seion, Llandysul, dydd Llun, Mehefin 19. Bydd y Rhaglenni allan erbyn y Sul nesaf, Rhagfyr 11. Y mae'r tonau canlynol ymhlith y rhai sydd yn gwneyd i fyny y Rhaglen:—Milwaukee, Brynhyfryd, Cwmafon, Memorial, Maesgwyn (2), Bampton, Eventide, Tresalem, Llanfair (Descant), Joanna (Descant). Y mae hefyd ddewisiad da o donau i'r plant.

I HEN LANC.

Yn hanner cant neu hynach,—y merched
A'i amharcha mwyach;
Dyn yw'n bod ei hunan bach
Yn ei babell, fel bwbach!

SARNICOL.

I BENTRE TALGARREG.

(A'r rhigymydd tua 18 oed).

Talgarreg tu ôl i gaerau—a saif
O serth, uchel fryniau;
Sŵn dŵr hên Gletwr glau—sydd yn swynol,
A'i awyr lesol well bob rhyw loesau.

SARNICOL.

HWTHWCH Y TAN.

O'r annwl, dewch, wirione!—a chodwch
Rhyw 'chydig o dalpe
Ar y tân, mae'n amser tê—
Dewch, a hwthwch, da chithe!

SARNICOL.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.